OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1018 (Cy. 72)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Mawrth 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *31 Mawrth 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *21 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(2) a 17(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff cynrychioliadol hynny y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(2) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

(**1**) 1984 p. 27. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.